**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**Rheoliadau Ystadegau'r DU (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS30A yn rhagnodi bod yn rhaid i Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei osod ac i Gynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw un o offerynnau statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Cafodd Rheoliadau Ystadegau'r DU (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 ("y Rheoliadau") eu gosod gerbron Senedd y DU ar 24 Ionawr 2019 ac maent bellach yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad. Mae'r gorchymyn i'w weld yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-uk-statistics-amendment-etc-eu-exit-regulations-2019

**Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i amcan**

3. Diben y Rheoliadau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â darparu gwybodaeth ystadegol.

4. Bydd y Rheoliadau yn diweddaru cyfeiriadau at "rwymedigaethau'r UE" a "deddfwriaeth yr UE" o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 drwy roi yn eu lle gyfeiriadau cyfatebol at y gyfraith yr UE a ddargedwir. Bydd y Rheoliadau hefyd yn gwneud un diwygiad cyfatebol i Ddeddf Diogelu Data 2018.

5. Bydd y Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016, Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 a Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyflenwyr Trydan (Diwygio a Thrydan a Eithrir) 2015 er mwyn gallu cadw cyfeiriadau at ddosbarthiad o weithgarwch economaidd. Mae'r olaf o'r rheini y tu allan i gymhwysedd datganoledig.

6. Mae'r Rheoliadau hefyd yn dirymu cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r DU ddarparu gwybodaeth ystadegol i'r Comisiwn Ewropeaidd, ond gan na all Gweinidogion Cymru wneud y diwygiadau hyn (oherwydd eu bod y tu allan i gymhwysedd datganoledig) nid oes angen iddynt gael eu cymeradwyo.

**Darpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS**

7. Mae'r Rheoliadau yn diwygio adrannau 29, 39, 45A, 45B a 45C o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 i ddiweddaru cyfeiriadau at gyfraith yr UE a rhwymedigaethau'r UE gyda chyfeiriadau cyfatebol at y gyfraith yr UE a ddargedwir. Bydd hyn yn sicrhau bod y cyfeiriadau hynny yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Er enghraifft,

pan fydd Deddf 2007 yn gwahardd rhyddhau gwybodaeth a allai fod yn groes i gyfraith yr UE byddai'r gwaharddiad hwnnw ar ryddhau yn parhau'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

8. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraff 7 uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau eu bod yn berthnasol i ddarparu gwybodaeth ystadegol.

**Pam mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

9. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar gyfer y DU gyfan yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU gan gynnwys Cymru, sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Rebecca Evans AC**
**Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd**
**Ionawr 2019**